# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**07.02.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Wel, cafodd **Blwyddyn 4** amser wrth eu boddau ar eu taith preswyl i **Ganolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd** ac roedd golwg blinedig iawn ar sawl un wrth ddychwelyd i'r ysgol heddiw! Mae blas o'r hwyl yn y lluniau isod. Diolch yn fawr iawn i Mr Jones, Miss Thomas a Miss Williams am gefnogi a threfnu'r daith. Cysgwch yn dda heno, bawb!

Hyfryd iawn oedd gweld cymaint o deuluoedd yn bresennol yn yr ysgol bore Mercher er mwyn derbyn hyfforddiant Dulliau Adferol. Diolch i chi am fod mor frwdfrydig wrth ymuno yn Amser Cylch ein dosbarthiadau. Gyda 50 o rieni yn bresennol, roedd hi'n brofiad ffrwythlon i ni gyd. Mae cwmni **WRAP** (Welsh Restorative Approaches Partnership) wedi paratoi fideos i'w rhannu gyda phobl na allodd ddod i'r cyfarfod Dydd Mercher. Gofynnaf yn garedig i chi wylio'r fideos (dolenni isod) er mwyn ymgyfarwyddo gyda egwyddorion Dulliau Adferol. Mae hwn yn gam pwysig iawn i ni fel ysgol ac rydym yn teimlo ei fod yn allweddol bod gan bawb yn ein cymuned ddealltwriaeth o Ddulliau Adferol.

Bu'r wythnos hon yn Wythnos Iechyd Meddwl Plant gyda gweithgareddau amrywiol ar y thema "Adnabod eich hun, Tyfu eich hun" ar draws yr ysgol. Mae pecyn hyfryd o adnoddau pellach wedi'i ddanfon atoch gyda'r ebost hwn i'w fwynhau gyda'ch plant.

Wrth i ni ddathlu Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol ar Ddydd Llun, cofiwch greu offerynnau cerdd gyda'ch deunyddiau ailgylchu o'r cartref dros y penwythnos. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld yr offerynnau gwreiddiol – byddwch greadigol! Diolch yn fawr i'r Dreigiau Doeth am gynllunio a pharatoi'r dydd i ni gyd ei fwynhau.

★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★

Our Year 4 pupils had a truly lovely time on their residential trip to the Urdd Centre in Cardiff Bay this week – there were many tired faces back at school today! You will get a taste of their fun in the photos below. **Diolch** to Mr Jones, Miss Thomas and Miss Williams for supporting and organising the trip. Sleep well tonight, everyone!

It was a great pleasure to see so many families at school on Wednesday morning for our family Restorative Approaches training. Diolch for joining in so enthusiastically in the class Circle Times. With 50 parents in attendance, it was a wonderful experience for us all. WRAP (Welsh Restorative Approaches Partnership) have prepared videos to share with those who were unable to attend the meeting. I kindly ask you to watch the videos (links below) in order to familiarise yourself with Restorative Approaches. This is an important step for us as a school and we feel it is key that everyone in our community has an understanding of Restorative Approaches.

This week has marked Children's Mental Health Week with various activities on the theme of "Know yourself, Grow yourself" across the school. A lovely package of further resources has been sent to you with this email to enjoy with your children.

As we celebrate Dydd Miwsig Cymru at school on Monday, don't forget to create your musical instruments from your home recyclables over the weekend. We are looking forward to seeing your original instruments – a chance to get creative! Diolch yn fawr to the Dreigiau Doeth for planning and preparing this special day for us all to enjoy.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Dydd Llun / Monday 10.02.25**
Dydd Miwsig Cymru

**Dydd Iau / Thursday 13.02.25**
Clyweliadau Unigol y Urdd
Urdd Solo Auditions

**06.03.25**
Diwrnod y Llyfr
World Book Day

**07.03.25**
Eisteddfod Ysgol

**Mawrth 26-28**
**March 26-28**
Taith Preswyl B5
*Year 5 Residential*
(Call of the Wild)


---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*

Hwyl yn y Bae i Blwyddyn 4 yr wythnos hon!

Fun in the Bay for Year 4 this week!




Y Sinema
The Cinema
PIC•COLLAGE


Bowlio Deg
Ten Pin Bowling
PIC•COLLAGE

# ★DYDD MIWSIG CYMRU!!!★

**Dydd Llun, y 10fed o Chwefror.**
*Monday 10th of February.*

**£1 i wisgo gwisg eich hun…coch, gwyn neu gwyrdd i ddangos cefnogaeth i'r diwrnod arbennig yma!**
*£1 to wear your own clothes…green, white or red to support this special day!*

**Defnyddiwch ddeunydd ailgylchu i greu offeryn ar ein gyfer ein clapomedr! Gwobrau i'r rhai mwyaf creadigol!**
*Use recycled materials to create an instrument for our clapometer! Prizes for the most creative!*

**Bydd DJ WoWo, Will.I.Am's ac Iestyn nôl i'n adloni ni!**
*DJ WoWo, Will.I.Ams and Iestyn will be back to entertain us!*







## Dulliau Adferol – *Restorative Approaches*

PWYSIG!
IMPORTANT!

Gofynwn i chi gyd wylio'r fidios yma:

Fersiwn Hir (27 munud) / Fersiwn Byr ( 4munud)

We kindly as that all parents watch these videos:

Long Version (27 minutes) / Short Version (4 minutes)

**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
***Spring Term Bus Bike Days***

14.2.25

7.3.25
21.3.25
4.4.25






Fel ysgol, byddwn yn ymuno â her **Stroliwch a Rholiwch** *Sustrans* eto eleni. Cynlluniwch ymlaen llaw NAWR – faint ohonoch all deithio i'r ysgol ar feic neu sgwter neu yn cerdded dros y pythefnos rhwng Mawrth 24 ac Ebrill 4? Helpwch ni i ennill gwobrau arbennig i'r ysgol!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/cy-GB/Sustrans-BWAW-2025-Welsh-InfoSheet.pdf

As a school, we will be joining the *Sustrans* Big Walk and Wheel challenge again this year. Plan ahead NOW – how many of you can travel to school by bike or scooter or walking over the two weeks between March 24 and April 4? Help us win amazing prizes for the school!
https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/en-GB/Sustrans-BWAW-2025-InfoSheet.pdf







Fe fydd cyfle i gyfrannu i'r Banc Bwyd ym mis Chwefror wedi'r cwbl!

**Casgliad Banc Bwyd Nesa Dydd Gwener Chwefror 21**

There will be an opportunity to donate to the Foodbank in February after all!

Next Food Bank Collection
Friday February 21

## Ydych chi eisiau gweld Nyrs yr Ysgol?

Rydym yn ffodus i allu cynnig cyfle i chi fel rieni ddod i drafod unrhyw fater yn ymwneud â iechyd eich plentyn gyda Nyrs yr Ysgol. Mae'r Gwasanaeth Nyrsio wedi gwneud trefniadau i ddod i'r ysgol ar **Ddydd Llun, Chwefror 10fed rhwng 9am ac 11am**. Ni fydd angen gwneud apwyntiad ond mae'n bosib y bydd angen aros os oes nifer yn aros i weld y nyrs. Er mwyn gweld y nyrs, dewch i swyddfa'r ysgol unrhywbryd rhwng 9am ac 11am ar y dydd.

## Do you want to see the School Nurse?

We are fortunate to be able to offer you as parents the opportunity to come and discuss any issue relating to your child's health with the School Nurse. The School Nursing Service has made arrangements to come to school on **Monday, February 10th between 9am and 11am**. No appointment will be required but please be aware that there may be a wait to see the nurse if many families attend. To see the nurse, please come to the school office anytime between 9am and 11am on the day.

Cymro / Cymraes yr Wythnos

Welsh learners of the week





Dysgwyr yr Wythnos

Learners of the week